Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu
CYSAG Sir Ddinbych

Hydref 2017

(Adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor yr haf)

2 ysgol

Ysgol	Dyddiadau	Arolygydd sy'n Adrodd
Ysgol Fabanod Y Parc	**Mai 2017**	**Vanessa Bowen**
Mae Ysgol Fabanod Y Parc wedi'i lleoli yn nhref Dinbych yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair a saith oed mewn saith dosbarth. Mae 199 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 48 sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae tua 13% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 13% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (25%). Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf a does yr un disgybl yn siarad Cymraeg gartref. Mae rhai o'r disgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Y dirprwy bennaeth yw'r pennaeth dros dro ar hyn o bryd a chymerodd y swydd hon ym mis Medi 2016. Mae'r pennaeth ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd. Mis Rhagfyr 2009 oedd arolwg diwethaf yr ysgol.		
Ysgol Gynradd Gatholig Bodfari	**Mai 2017**	**Ms Fiona Arnison**
Mae Ysgol Gynradd Bodfari wedi'i lleoli ym mhentref bach Bodfari, dair milltir o dref Dinbych. Mae'r disgyblion yn byw yn y pentref a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 37 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, o oedran meithrin i Flwyddyn 6. Mae dau ddosbarth ag oedran cymysg, un ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Mae darpariaeth meithrin yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen yn y boreau. Mae grŵp chwarae Busy Bods, sydd ar wahân i'r ysgol, yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol bob dydd. Mae staff y grŵp chwarae hefyd yn darparu gofal ar ôl ysgol dyddiol ar gyfer disgyblion oedran ysgol a safle'r ysgol. Daw'r holl ddisgyblion o gartrefi lle mae Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol ar hyn o bryd (21%) yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd dan ofal yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 27% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn rywfaint yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Cymerodd y pennaeth presennol ei swydd yn 2011. Mis Hydref 2009 oedd arolwg diwethaf yr ysgol.		

Fframwaith Arolwg Presennol

Perfformiad Cyfredol

- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, groesawgar a gofalgar ar gyfer yr holl ddisgyblion ac athrawon, ac mae disgyblion yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth yn dda

SYLWADAU

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw safonau?

Lles

- Mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn cyfrannu'n llwyddiannus i'w cymuned leol. Er enghraifft, maen nhw'n gweithio gyda'r eglwys leol i gynllunio digwyddiadau, megis gŵyl y cynhaeaf. Maen nhw'n codi arian ar gyfer elusennau lleol, er enghraifft wrth gefnogi'r uned gofal arbennig babanod lleol. Mae hyn yn gosod eu hymdeimlad o berthyn a hunanwerth yn gadarn. (Bodfari)

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

- Mae athrawon yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda... Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o agweddau ar y byd ehangach. Mae gan yr ysgol ddolen weithredol gydag ysgol yn Uganda, ac mae disgyblion yn ysgrifennu llythyrau ac yn rhannu negeseuon e-bost er mwyn datblygu dealltwriaeth o fywyd ysgol mewn gwledydd eraill. Mae ymgysylltiad disgyblion mewn digwyddiadau codi arian niferus ar gyfer elusennau yn gwella'r synnwyr ohonyn nhw eu hunain fel dinasyddion, yn lleol ac yn y gymuned ehangach. (Y Parc)
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang a'u lle yn y byd ehangach. (Bodfari)

Gofal, cymorth ac arweiniad:

- Mae staff yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae cysylltiadau lleol cryf gydag eglwysi, busnesau a gwasanaethau lleol yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o fyw mewn cymuned. Enghraifft dda o hyn yw cyfranogiad y disgyblion mewn priodas smalio. (Y Parc)
- Caiff datblygiad diwylliannol disgyblion ei hyrwyddo'n effeithiol drwy feysydd dysgu, gan gynnwys dysgu am ddyddiau gŵyl mewn gwledydd eraill. Mae addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o werthoedd ysgol gyfan. (Y Parc)
- Mae staff yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a moesol disgyblion yn llwyddiannus drwy wersi ac addoli ar y cyd. Mae cyfleoedd rheolaidd i ganu gyda'i gilydd yn frwdfrydig fel ysgol gyfan hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i wella datblygiad ysbrydol disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd aml i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol, er enghraifft drwy wythnosau â themâu a phynciau am wledydd eraill. (Bodfari)

Yr Amgylchedd Dysgu:

- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, groesawgar a gofalgar ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae athrawon a disgyblion yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth yn dda. O ganlyniad, mae diwylliant o ofal a pharch y naill at y llall yn treiddio drwy'r ysgol. (Y Parc)

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Gweithio mewn Partneriaeth:

- Mae cysylltiadau cryf yr ysgol gyda'r gymuned yn darparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Er enghraifft, mae gweinidog lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cefnogi profiadau dysgu, megis priodas yr ysgol. (Y Parc)